Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 January 2024

Diweddariad olaf: 18 January 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-syn-denu-recriwtio-a-chadw-pobl-âr-gwerthoedd-cywir-i-ddiwallu-anghenion-y-rhai-sydd-angen-gofal-a-chymorth am y fersiwn diweddaraf.

**Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni’n parhau i adeiladu ar frand Gofalwn Cymru i ddenu, recriwtio a chadw pobl yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Rydyn ni wedi datblygu ein ymgyrch cenedlaethol a phorth swyddi Gofalwn Cymru ymhellach, sy'n cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio gan fwy o ddarparwyr. Rydyn ni wedi cyflwyno cynllun cyfweliad gwarantedig ac wedi adeiladu ar weithio mewn partneriaeth i wella ein rhaglenni Cyflwyniad i ofal cymdeithasol a gofal plant yn barhaus.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer y swyddi sy'n cael eu postio ar ein porth swyddi ac yn nifer y ceisiadau uniongyrchol.

Mae'r porth swyddi yn ffordd hawdd i gyflogwyr gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar hysbysebu eu swyddi gwag ac i bobl weld y swyddi gwag sydd ar gael yn eu hardal.

## Gofalwn Cymru

Yn 2022 i 2023:

- cynhaliodd Gofalwn Cymru **5 ymgyrch** yn canolbwyntio ar: ofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant, prentisiaethau a'r Gymraeg

- cafwyd **62,461,120 o argraffiadau** ar draws pob ymgyrch (y nifer o weithiau roedd y cynnwys yn cael ei arddangos)
- dywedodd **37 y cant** wrthym ni eu bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol am ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar ar ôl gweld hysbyseb Gofalwn Cymru
- dywedodd **19 y cant** o bobl Cymru wrthym ni eu bod yn ymwybodol o Gofalwn Cymru
- roedd gwefan Gofalwn Cymru wedi cael **139,779 o ymwelwyr**
- cafodd **6,442 o swyddi** eu postio ar borth swyddi Gofalwn Cymru.

Roedd **600 o bobl** wedi cwblhau'r rhaglen **Cyflwyniad i ofal cymdeithasol** erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Yn dilyn y rhaglen, **mae 20 y cant** o bobl wedi dod o hyd i gyflogaeth neu wedi parhau â'u haddysg.

Cwblhaodd mwy na **70 aelod** o Ganolfan Gymunedol Affricanaidd Abertawe y rhaglen ac ers hynny mae **35**wedi mynd ymlaen i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae **116 o bobl** wedi cwblhau'r rhaglen **Cyflwyniad i Ofal Plant** o fewn y **chwe mis** cyntaf ar ôl ei lansio.

**“O ganlyniad i'r cwrs hwn roeddwn i'n ystyried newid gyrfa. Ar ôl 20 mlynedd yn fy swydd bresennol, dwi wedi rhoi fy rhybudd i mewn i ddechrau gyrfa newydd ym maes gofal plant. Yn ffodus, dwi wedi cael swydd lawn amser fel nyrs feithrin a dwi'n dechrau mewn pythefnos, ac alla i ddim aros!”**

**– Un dilyn y rhaglen Cyflwyniad i ofal plant**